Minutes of the **Planning & Amenities Committee** held at Penrhyn Hall, **Monday 16 December 2019** at 6.30 p.m.

**PRESENT :-** His Worship the Mayor, Councillor John Wyn Williams
Deputy Mayor, Councillor Owen Hurcum

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councillors | G O Roberts (Chairman) | J Wynn Jones | Nigel Pickavance |
| | Les Day | Keiran Jones | Gareth Roberts |
| | Dylan Fearnley | J M Martin | George Turner |
| | Derek Hainge | Enid Parry | Huw Wyn Jones |
| Officer : | Martin Hanks, Acting Town Clerk | | |

**144/19 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Medwyn Hughes, and Luke Tugwell.

**145/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillor Derek Hainge declared an interest in Application number C19/1072/11/LL and left the room during the discussion and vote.
Councillor Gareth Roberts declared a non-prejudicial interest in applications C19/0993/11/LL & C19/1072/11/LL) and abstained from voting.

**146/19 URGENT BUSINESS**

i. The Chairman welcomed Councillor George Turner to his first meeting as the newly elected Councillor for the Hirael Ward
ii. A proposal to defer parking charges at the Pier car park over Festive Season was discussed and generally supported. The matter will be ratified at the next Council meeting.

**147/19 PROPOSAL TO DEFER COUNCIL MEETING**

Due to the general lack of activity over the Festive season combined with difficulties in distributing agenda and reports in a timely manner, it was proposed to defer the Council meeting of the 6th January for one week.

**RESOLVED:** to defer the Council meeting of the 6th January 2020 until 13th January 2020.

**148/19 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below:-

**C19/1068/11/LL** Conversion of previously used University building into 6 self-contained residential units and additional car parking space. Neuadd Ogwen, Normal College Of Education, College Road. **No objection.**

**C19/1078/DT** Application for the erection of a single storey flat roofed extension to the side of the property together with external alterations Collwyn, 1, Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd. **No objection.**

**C19/1115/11/LL** New shop front and security shutter. 317 High Street. **No objection, 'The Council requests that the development take into account planning objections'.**

**C19/0993/11/LL** Create a parking space at front of property. 25 Pen y Wern **No objection.**

**C19/1072/11/LL** Residential Development of 30 Units (to inculde 12 affordable units) together with infrastructure, parking spaces, access, footpaths and amenity area. Land Of Pen Y Ffridd Road, Pen Y Ffridd Road, Penrhosgarnedd.
**Objection. The City Council object to this application in its current form on the following grounds:**
i) **the percentage of affordable housing compared to properties at full market value is not in keeping with agreed parameters;**
ii) **a reduction in road safety caused by the introduction of the proposed access road into the development from Pen y Ffridd Road. This road is frequently reduced to a single line of traffic due to parked vehicles and the consequential increase in traffic from this development will add to an already difficult driving area.**

**C19/1135/11/DT** Create an additional bedroom within the roof space (amended scheme to that approved under permission ref. C19/0764/11/LL). 33 Bryn Eithinog. **No Objection**,

**149/19 HIGHWAY MATTERS**

Gwynedd Council – Closure of back Regent Street which is the rear access road to Penllys Terrace (Temporary Prohibition of Through Traffic) – **Noted**.

**150/19 LICENSING MATTERS**

None.

**151/19 INVOICES FOR PAYMENT**

The invoices had been approved for payment as detailed on the schedule totalling £3,903.93. The invoices were available for any Member to see if necessary. **RESOLVED** that the payments be noted.

The Mayor wished all present the compliments of the Season and invited them to stay for refreshments.

The Meeting Finished at 7.15 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, **Nos Lun 17 Rhagfyr 2019** am 6.30.

**PRESENNOL** :- Ei deilyngdod y Maer, Cynghorydd John Wyn Williams
Y Dirprwy Faer, Cynghorydd Owen Hurcum

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorwyr | G O Roberts (Is-Gadeirydd) | John Wynn Jones | Nigel Pickavance |
| | Les Day | Keiron Jones | Gareth Roberts |
| | Dylan Fearnley | Enid Parry | George Turner |
| | Derek Hainge | J M Martin | Huw Wyn Jones |

Swyddog : Martin Hanks, Clerc y Dref Dros dro

**144/19 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Medwyn Hughes a Luke Tugwell.

**145/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Derek Hainge ddiddordeb yng Nghais rhif C19/1072/11/LL a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais.
Datganodd y Cynghorydd Gareth Roberts ddiddordeb heb fod yn rhagfarnus yng ngheisiadau C19/0993/11/LL a C19/1072/11/LL ac ataliodd ei bleidlais.

**146/19 MATERION BRYS**

i. Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd George Turner i’w gyfarfod cyntaf fel Cynghorydd etholedig newydd Ward Hirael
ii. Trafodwyd cynnig i beidio â chodi am barcio ym maes parcio’r Pier dros yr Ŵyl a chafwyd cefnogaeth i hyn. Bydd y mater yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**147/19 CYNNIG I OHIRIO CYFARFOD Y CYNGOR**

Oherwydd nad oedd llawer o weithgaredd dros gyfnod y Nadolig, ynghyd ag anawsterau i ddosbarthu agenda ac adroddiadau yn brydlon, cynigiwyd gohirio cyfarfod y Cyngor o 6 Ionawr i’r wythnos ganlynol.

**PENDERFYNWYD:** gohirio cyfarfod y Cyngor o 6 Ionawr 2020 i 13 Ionawr 2020.

**148/19 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai’r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C19/1068/11/LL** Addasu cyn adeilad y Brifysgol i 6 uned breswyl hunangynhaliol ynghyd â llecyn parcio ychwanegol. Neuadd Ogwen, Ysgol Addysg, Ffordd y Coleg. **Dim gwrthwynebiad**

**C19/1078/DT** Cais ar gyfer codi estyniad unllawr to fflat i ochr yr eiddo ynghyd â newidiadau allanol. Colwyn, 1 Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd. **Dim gwrthwynebiad**

**C19/1115/11/LL** Edrychiad newydd i'r siop ynghyd â chaead diogelwch 317 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad**

**C19/0993/11/LL** Creu maes parcio yn nhu blaen yr eiddo. 25 Pen y Wern. **Dim gwrthwynebiad. ‘Mae’r Cyngor yn gofyn i’r datblygiad ystyried gwrthwynebiadau cynllunio’.**

**C19/1072/11/LL** Datblygiad preswyl o 30 uned (i gynnwys 12 uned fforddiadwy) ynghyd ag isadeiledd, llecynnau parcio, mynedfa, llwybrau a llecyn agored. Tir ger Ffordd Pen Y Ffridd Penrhosgarnedd. **Gwrthwynebiad. Mae Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu’r cais hwn yn ei ffurf bresennol ar y seiliau canlynol:**

i) **nid yw’r canran o dai fforddiadwy o’i gymharu ag eiddo ar werth llawn y farchnad yn unol â’r paramedrau y cytunwyd arnynt;**
ii) **byddai’r ffordd yn llai diogel yn sgil cyflwyno’r ffordd fynediad arfaethedig i mewn i’r datblygiad o Ffordd Pen y Ffridd. Yn aml dim ond un lôn o draffig sy’n gallu mynd ar y ffordd hon o ganlyniad i gerbydau wedi parcio a bydd y cynnydd dilynol mewn traffig o’r datblygiad hwn yn ychwanegu at ardal sydd eisoes yn anodd gyrru trwyddi.**

**C19/1135/11/DT** Creu ystafell wely ychwanegol o fewn gwagle'r to (cynllun diwygiedig i ganiatâd rhif C19/0764/11/LL). 33 Bryn Eithinog. **Dim gwrthwynebiad.**

**149/19 MATERION PRIFFYRDD**

Cyngor Gwynedd – Cau cefn Regent Street, sef y ffordd fynediad i Deras Penllys (Gwahardd Traffig Drwodd Dros Dro) – **Nodwyd**.

**150/19 MATERION TRWYDDEDU**
Dim.

**151/19 ANFONEBAU I'W TALU**

Roedd yr anfonebau wedi'u cymeradwyo i'w talu fel ag ar y rhestr yn rhoi cyfanswm o £3,903.93. Roedd yr anfonebau ar gael i unrhyw Aelod eu gweld os oedd angen. **PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.

Dymunodd y Maer Nadolig Llawen i bawb ac fe'u gwahoddwyd i aros ar ôl i gael lluniaeth.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.15 y.h.